**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

25 Chwefror 2025

Annwyl Rebecca,

**Llythyr yn dilyn y cyfarfod ar 12 Chwefror 2025**

Diolch i chi am o'ch amser ac am y dystiolaeth a roesoch i'r Pwyllgor ar 12 Chwefror fel rhan o'n hymchwiliad i **Lwybrau Prentisiaeth**.

Gan nad oedd amser i drafod popeth a'r ffaith nad oedd modd i'r Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol fod yn bresennol, mae rhai meysydd yr hoffai'r Pwyllgor gael rhagor o wybodaeth amdanynt.

Efallai y bydd y cwestiynau hyn y tu allan i'ch cylch gwaith neu ym maes portffolio Gweinidog arall, felly rwy'n hapus i gael ymateb gan y Gweinidog yr ydych chi'n teimlo sydd fwyaf addas. Oherwydd hynny, rydym wedi anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch.

Gofynnwn i chi nodi ymateb y Llywodraeth i'r cwestiynau a ganlyn.

Yn Adroddiad Grŵp Llywio Cymwysterau Galwedigaethol Cymru, argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol a ddylai fod yn rhan o strategaeth addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ehangach. Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn a dywedodd y byddai datganiad polisi byr yn cael ei ddatblygu sy'n canolbwyntio ar gamau gweithredu addysg ôl-16:

- Pa gynnydd a wnaed o ran datblygu'r datganiad polisi hwn?

Rôl cyngor a gwybodaeth a phrofiad gwaith er mwyn i ddysgwyr ddeall eu hopsiynau:

- A ydych yn fodlon ar y cyngor a'r wybodaeth a roddir i ddysgwyr ynghylch cyfleoedd prentisiaeth, yn enwedig y gwasanaeth a ddarperir gan Gyrfa Cymru?

- Pa mor ymwybodol ydych chi o'r gostyngiad a fu o ran profiad gwaith ystyrlon mewn ysgolion ers i Gyrfa Cymru roi'r gorau i gyflawni rôl gydgysylltu ganolog yn 2015? I ba raddau y gallai hyn fod yn rhwystr i ddysgwyr ddeall eu hopsiynau o ran prentisiaethau a dysgu seiliedig ar waith?

Llwybrau prentisiaeth a'r gallu i fapio llwybrau dilyniant clir o brentisiaethau lefel is i lefel uwch ac integreiddio fertigol:

- I ba raddau yr ydych yn ymwybodol bod dysgwyr yn cael eu hatal rhag dilyn prentisiaeth neu rhag parhau i'r lefel nesaf oherwydd anawsterau wrth fapio llwybrau clir? A oes cyfleoedd ar gael i ddysgwyr symud ymlaen drwy'r lefelau os ydynt yn dymuno gwneud hynny?

- Sut y gellir cael mwy o hyblygrwydd yn y system i ganiatáu i lwybrau prentisiaeth ymateb yn gyflymach i anghenion newidiol sectorau sy'n newid yn gyflym a rhai sy'n dod i'r amlwg?

Rôl cyflogwyr a chefnogi busnesau bach a chanolig i ymgysylltu â'r rhaglen brentisiaethau:

- Mae nifer o rwystrau y mae busnesau llai yn eu hwynebu o ran y rhaglen brentisiaethau, megis capasiti gweinyddol cyfyngedig a diffyg ymwybyddiaeth o fanteision prentisiaid. Pwy ddylai fod yn mynd i'r afael â'r heriau hyn a sut?

- Beth arall y gellir ei wneud i annog cyflogwyr, yn enwedig busnesau llai, i ymgysylltu â'r rhaglen brentisiaethau a darparu prentisiaethau?

Rôl Llywodraeth Cymru

- Mae nifer o adroddiadau wedi'u cyhoeddi yn y blynyddoedd diwethaf gydag argymhellion i Lywodraeth Cymru, a rhanddeiliaid allweddol eraill, ynghylch prentisiaethau. Pa mor hyderus ydych chi fod yr argymhellion cydgysylltiedig hyn yn cael eu gweithredu a phwy sy'n eu monitro?

- Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch ymrwymo i ysgrifennu at y Pwyllgor ar hynt y gwaith, a'r cyllid ar gyfer, gweithredu'r argymhellion a wnaed yn yr Adroddiad gan Sharron Lusher ar yr **Adolygiad o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru** a'r **Adroddiad Pontio i fyd gwaith** gan Hefin David.

Diolch i chi unwaith eto am roi o'ch amser i ddod i gyfarfod y Pwyllgor. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r pwyntiau uchod erbyn dydd Gwener 14 Mawrth.

Mae copi o'r llythyr hwn yn cael ei anfon at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â'i ymchwiliad i Lwybrau at addysg a hyfforddiant ôl-16.

Cofion cynnes,



Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg